Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 22 Mawrth 2023 |
| | | Rhif Union: | 01824712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 28 MAWRTH 2023** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN A THRWY GYNHADLEDD FIDEO**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 16)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd 21 Chwefror 2023 (copi ynghlwm).

**5 TERFYNU'R CONTRACT AM BRIF GONTRACTWR AR GYFER CAM 2 Y DEPO GWASTRAFF** (Tudalennau 17 - 24)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Barry Mellor, Aelod Arweiniol yr Amgylchedd a Chludiant (copi ynghlwm) ynghylch terfynu'r contract rhwng Cyngor Sir Ddinbych a R L Davies Ltd (RLD) er mwyn i RLD fod y prif gontractwr ar gyfer Cam 2 y Depo Gwastraff ar Ystâd Colomendy, Dinbych.

**6 STRATEGAETH DDEWISOL Y CYNLLUN DATBLYGU LLEOL NEWYDD - ADRODDIAD YMGYNGHORI** (Tudalennau 25 - 284)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Win Mullen-James, Aelod Arweiniol Datblygu Lleol a Chynllunio (copi ynghlwm) ynghylch Adroddiad Ymgynghori'r Strategaeth Ddewisol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLl) a cheisio cefnogaeth y Cabinet ar gyfer Strategaeth Ddewisol y CDLl, gan gyflwyno'r newidiadau a argymhellir i'r Cyngor i'w cymeradwyo'n derfynol.

**7 CYFLWYNO SYSTEM GAFFAEL DDEINAMIG AR GYFER DARPARU GRANTIAU CYFLEUSTERAU I BOBL ANABL** (Tudalennau 285 - 292)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor ar ddatblygu a gweithredu System Gaffael Ddeinamig mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint ar gyfer darparu Grantiau Cyfleusterau i Bobl Anabl Gorfodol, yn unol â Rheolau presennol y Weithdrefn Gontractau.

**8 ADNEWYDDU'R FFRAMWAITH CONTRACTWR CYNNAL A CHADW TAI GWAG** (Tudalennau 293 - 312)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Rhys Thomas, Aelod Arweiniol Tai a Chymunedau (copi ynghlwm) yn ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau caffael ac ymrwymo i gontract ar gyfer penodi nifer o gontractwyr i fframwaith i gynnal gwaith ailwampio i eiddo domestig gwag ym mherchnogaeth y Cyngor (a elwir yn dai gwag).

**9 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 313 - 368)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Gwyneth Ellis, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**10 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 369 - 376)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet sydd ynghlwm a nodi'r cynnwys.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

**Gwyneth Ellis**
**Gill German**
**Elen Heaton**
**Julie Matthews**
**Jason McLellan**
**Barry Mellor**
**Win Mullen-James**
**Rhys Thomas**
**Emrys Wynne**

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned